OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1215 (Cy.123)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) (Rhif 2) 2008

Gwnaed - - - -	*29 Ebrill 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*30 Ebrill 2008*
Yn dod i rym - -	*22 Mai 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) (Rhif 2) 2008. Daw i rym ar 22 Mai 2008 ac y mae yn gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y dibenion statudol" ("*the statutory purposes*") yw dibenion y rheoliadau sy'n ymwneud â gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio o dan adran 72(4)(a) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004;

ystyr "y gofynion a bennir" ("*the specified requirements*") yw'r gofynion a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn; ac

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA state*") yw gwladwriaeth o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Dyfeisiadau a gymeradwyir

2.—(1) Mae dyfais yn ddyfais a gymeradwyir at y dibenion statudol os yw o fath sydd wedi ei ardystio gan Weinidogion Cymru fel un sy'n bodloni'r gofynion a bennir.

(2) Cymerir bod dyfais yn bodloni'r gofynion a bennir pan fo tystiolaeth wedi'i darparu sy'n bodloni Gweinidogion Cymru bod awdurdod cymwys mewn Gwladwriaeth AEE wedi canfod bod

(**1**) 2004 p.18.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

y ddyfais o dan sylw yn un sy'n bodloni gofynion safon AEE sy'n gofyn am lefel o berfformiad sy'n cyfateb i'r lefel o berfformiad sy'n ofynnol gan y gofynion a bennir.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "safon AEE" ("*EEA standard*") yw—

(a) safon neu gôd ymarfer corff safonau gwladol neu gorff cyfatebol perthynol i unrhyw Wladwriaeth AEE;

(b) unrhyw safon ryngwladol a gydnabyddir ar gyfer ei defnyddio fel safon neu gôd ymarfer gan unrhyw Wladwriaeth AEE; neu

(c) manyleb dechnegol a gydnabyddir ar gyfer ei defnyddio fel safon gan awdurdodau cyhoeddus perthynol i unrhyw Wladwriaeth AEE.

Dirymu Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008

3. Dirymir Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008(**3**) drwy hyn.

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

29 Ebrill 2008

(**3**) O.S. 2008/620 (Cy. 69)